Ysgol Gyfun Gymraeg
BRO MYRDDIN
Welsh Comprehensive School

Croesyceiliog
Caerfyrddin / Carmarthen
SA32 8DN
Ffôn / Tel: (01267) 234829
E-bost / E-mail:
swyddfa@bromyrddin.sirgar.sch.uk
Pennaeth / Headteacher : Dr Llinos Jones

Mai 2015

Annwyl ddarpar rieni / gwarcheidwaid

Ysgrifennaf atoch i rannu gwybodaeth gyda chi am ddatblygiadau cyffrous yn hanes Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Dymunaf eich hysbysu fel darpar rieni / gwarcheidwaid yr ysgol am ein bwriad, o Fedi 2016, i symud ymlaen yn naturiol i newid categori iaith yr ysgol.

Yn dilyn trafodaeth gydag Adran Addysg a Phlant Sir Gâr, ac mewn ymateb i ddymuniad y Cyngor i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, dymuniad yr ysgol yw symud ar hyd y continiwwm iaith gan sicrhau dilyniant addysgol naturiol a phriodol yng Nghynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Y bwriad yw newid categori iaith yr ysgol o gategori 2A (dwyieithog) i gategori CC (Cyfrwng Cymraeg). Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, felly, fyddai yr ysgol gyntaf yn Sir Gâr i fod yn ysgol gyfun benodedig cyfrwng Gymraeg.

Byddwn yn dechrau ar y broses ymgynghori anffurfiol ar y cynnig hwn ar nos Lun, Mehefin yr 8fed a hoffwn eich gwahodd chi i gyfarfod yn neuadd yr ysgol am 7.00 i drafod y datblygiadau. Fe fydd y broses ymgynghori yn dilyn yr arfer dda a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, yn cynnwys llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni.

Fe fydd y datblygiadau yma yn effeithio ar ddisgyblion fydd yn dechrau yn yr ysgol ym mis Medi 2016 a'r blynyddoedd dilynol. Nod y noson yw cyflwyno dogfen ymgynghori drafft i chi fel rhieni ac i drafod y cynlluniau cyffrous. Mae'r ddogfen ymgynghori drafft ar gael i chi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin neu ar wefan yr ysgol www.bromyrddin.sirgar.sch.uk o dan y botwm – Ymgynghori – Categori Iaith.

Yn ddiffuant

Dr Llinos Jones
Pennaeth